# Cadw


# Croeso i Gastell Caernarfon

Caer-balas ysblennydd

## Beth i'w weld yng Nghastell Caernarfon

1. Edrychwch ar y dwylo a helpodd i greu'r castell wrth i chi grwydro **Porth y Brenin**. Mae'r Porthdy deudwr enfawr hwn â'i bont godi, pum dôr, chwe phorthcwlis, tyllau llofruddio ac agennau saethau yn amddiffynfa wych.
2. Ewch am dro i **Dŵr y Granar**, tŵr wythonglog â ffynnon ar y llawr daear. Sbïwch ar yr holl agennau saethau y tu allan — mae bron fel gwn peiriant canoloesol!
3. Ymgollwch yn stori Castell Caernarfon, sy'n cael ei hadrodd trwy gyfrwng golau a sain yn **Nhŵr y Gogledd-ddwyrain**.
4. Syllwch ar **Borth y Frenhines**. Er na chafodd ei gwblhau mae'n dal i dyrru'n uchel uwchlaw'r Maes.
5. Rhyfeddwch wrth wrando ar fythau a chwedlau Caernarfon yn cael eu hadrodd yn y **Tŵr Du**.
6. Chwiliwch am y lle tân ar ail lawr **Tŵr y Siambrlen** lle mae'r unig simnai sydd wedi goroesi yn y castell.
7. Dychmygwch ysblander y **Neuadd Fawr**. Ar un adeg hon oedd calon y castell — dim ond ei sylfeini sydd ar ôl bellach.
8. Martsiwch i **Dŵr y Frenhines**, cartref amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig — y gatrawd hynaf o droedfilwyr yng Nghymru. Dilynwch y saethau!
9. Rhyfeddwch at y tŵr cadarnaf ohonynt i gyd, sef **Tŵr yr Eryr**, tŵr ysblennydd â thri thwred.
10. Plymiwch i ddyfnderoedd newydd yn **Nhŵr y Ffynnon** lle gwelwch weddillion system blymio ganoloesol a ffynnon 50 troedfedd (15m) o ddyfnder.
11. Archwiliwch **Lwyfan yr Arwisgo** — mae cylch o lechfaen Cymru yn nodi safle arwisgo Tywysog Cymru yn 1969.
12. Y fynedfa a'r siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?

- Saer Maen
- Y Saer Coed
- Y Gof
- Y Brenin
- Y Siambrlen
- Y Labrwyr
- Y Prif Adeiladydd
- Y Gwydrwr
- Y Caplan
- Y Gof Arfau
- Y Strwythur Cymdeithasol
- Y Brodiwr

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 130 o safleoedd hanesyddol

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

cadw.llyw.cymru

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Caernarfon Croeso WELSH leaflet v2.indd 1 30/03/2023 14:33